



Ysgol Pentreuchaf

130. Polisi Rôl Llywodraethwyr

Nod

Y Corff Llywodraethol yn rhan o weledigaeth yr ysgol, yn darparu arweiniad addas ac yn rhan o benderfyniadau yn cynnwys cynllunio, dealltwriaeth o weithdrefnau, monitro ac arfarnu, unodi arbenigedd a dirprwyo cyfrifoldebau. Bydd hyn oll yn fodd o godi safonau.

Amcanion

1. Hyrwyddo a chefnogi datblygiad addysg fel proses gydol oes o fewn cymuned ddwy-ieithog.
2. Pwysleisio darpariaeth o'r safon uchaf.
3. Rheoli newid yn effeithiol ac effeithlon.
4. Hyrwyddo a chynnal morâl a chymhelliant uchel.

Canllawiau

1. Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am lawer o faterion, gan gynnwys

- | | |
|---|------------------------|
| i) Iechyd a Diogelwch | v) Yr adeilad |
| ii) Rhediad yr ysgol | vi) Disgyblaeth |
| iii) Derbyn a Mynediad | vii) Cyllid |
| iv) Anghenion Addysgol Arbennig | viii) Llawlyfr Rhieni |
| ix) Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i'r Rhieni | x) Staffio a chyflogau |

2. Rhaid i bob Llywodraethwr ddatgan unrhyw ddi-ddordeb o ran buddiannau ariannol.
3. Gan fod penderfyniadau yn gorfforaethol, rhaid i bob unigolyn fod yn deyrngar i'r penderfyniadau hynny.
4. Mae cyfrinachedd yn holl bwysig i alluogi trafodaethau agored a gonest, ac mae achosion ple byddai materion yn wybyddus i'r cyhoedd yn niweidiol i unrhyw wrandawriad neu apêl allai ddilyn.
5. Mae pob Llywodraethwr (ond y pennaeth sy'n Llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd) yn gwasanaethu am 4 blynedd, ond gall ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy ysgrifennu at y Clerc. Gall Llywodraethwyr hefyd gael eu diswyddo os nad ydynt wedi ymddiheuro, na mynychu cyfarfodydd am gyfnod o 6 mis heb reswm sy'n dderbyniol gan y Corff Llywodraethu.
6. Mae angen ethol swyddogion yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn ysgol.
7. Yr un pryd, byddwn yn adolygu a chadarnhau'r swyddi/is-bwyllgorau canlynol

- | | |
|--|---|
| i) Llywodraethwr dynodedig Anghenion Addysg Arbennig | v) Is-bwyllgor Adeiladau |
| ii) Llywodraethwr dynodedig Amddiffyn Plant | vi) Is-bwyllgor Personel / Rheoli Perfformiad |
| iii) Llywodraethwr dynodedig Cydraddoldeb Hiliol | vii) Is-bwyllgor Disgyblaeth |
| iv) Is-bwyllgor Cyllid | viii) Is-bwyllgor Apêl |
| ix) Is-bwyllgor Safonau | |

8. Bydd swyddog gweinyddol yr ysgol yn rhoi gwybod i'r Llywodraethwyr am ddiwyddiadau penodol megis cyngerdd, gwasanaeth diolchgarwch a.y.y.b.
- 9 Yr Is-banel Safonau sydd â chyfrifoldeb am safonau gan gynnwys yr addysgu a dysgu a phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a byddant yn ymweld â'r ysgol i graffu ar waith ac arsylwi gwersi. Mae'r Is banel-Safonau yn ysgrifennu adroddiadau yn dilyn yr ymweliadau hyn.
10. Credwn fod angen i holl staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr ddod i adnabod ei gilydd yn dda er mwyn rhannu gweledigaeth a dod i ddeall safbwyntiau eraill.
11. Mae manylion swyddogaethau Llywodraethwyr yn y ddogfen Ysgolion Cynradd Sirol (Erthyglau Llywodraeth) Gorchymyn 1988, ond mater i'r Corff Llywodraethu yw sut i weinyddu'r cyfrifoldebau hyn.

Casgliad

Mae Llywodraethwyr yn gyfrifol yn gorfforaethol am eu gweithrediadau a phenderfyniadau, creu perthynas gyda'r pennaeth a'r AALL, felly mae'n holl-bwysig fod perthynas waith dda rhwng yr Ysgol, y Llywodraethwyr a'r AALL. Rhaid cofio fod pawb yn gweithio er budd yr ysgol a'r plant.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____